# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 14 Chwefror 2002 i'w hateb ar 28 Chwefror 2002

**R yn dynodi bod aelod wedi datgan buddiant.**
**W yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg

**1. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ynghylch ariannu datblygiadau chwaraeon yng Nghymru. (OAQ15876)

**2. Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch Prosiect Rhwydwaith y Bobl. (OAQ15937)

**3. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** Ym mha ffordd fydd strategaeth ddiwylliant y Gweinidog yn codi proffil artistiaid Cymru dramor. (OAQ15946)

**4. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i hyrwyddo chwaraeon ac addysg gorfforol mewn ysgolion a chymunedau lleol. (OAQ15929)

**5. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Ym mha ffordd y bydd y strategaeth ddiwylliant yn annog cyrff celfyddydau cenedlaethol i wneud gwell defnydd o dalent ein gwlad. (OAQ15891)

**6. Christine Chapman (Cwm Cynon);** A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cyfranogiad menywod mewn chwaraeon yng Nghymru. (OAQ15890)

**7. Karen Sinclair (De Clwyd);** Pa gynnydd a wnaed ar Brosiect Rhwydwaith y Bobl. (OAQ15871)

**8. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr adnoddau hamdden a chwaraeon sydd ar gael ar gyfer pobl anabl yn ein cymunedau. (OAQ15872)

**9. Gareth Jones (Conwy);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith Mesur y Swyddfa Gyfathrebu arfaethedig ar gyhoedd Cymru. (OAQ15885)

**10. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** Sut y mae'r cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer cwmnïau teithiol yng Nghymru yn cymharu â'r hyn sydd ar gael ar gyfer cwmnïau yn Lloegr a'r

Alban. (OAQ15947)

**11. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Pa bolisïau pellach fydd yn cael eu datblygu er mwyn hyrwyddo cyfranogiad mewn chwaraeon yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. (OAQ15868)

**12. Tom Middlehurst (Alun a Glannau Dyfrdwy);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyllido Theatr Clwyd Cymru. (OAQ15881)

**13. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd sy'n cael ei wneud ar ddatblygu diwylliant Cymru yn unffurf ledled Cymru. (OAQ15950)

**14. Gareth Jones (Conwy);** Pa sylw a gymerwyd i ymateb Cabinet y Cynulliad Cenedlaethol i'r Papur Gwyn ar Ddarlledu a Chyfathrebu a gyhoeddwyd y llynedd. (OAQ15884) **W**

**15. Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Pa drafodaethau y mae hi wedi'u cael ynghylch adeiladu pwll nofio 50-metr yng Ngogledd Cymru. (OAQ15889)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig

**1. Brian Gibbons (Aberafan);** Pa gyfran o ffermwyr Cymru a ddosberthir fel ffermwyr rhan amser. (OAQ15916)

**2. Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda'i Gyd-Weinidogion ar hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. (OAQ15918)

**3. Peter S Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trafodaethau y mae wedi'u cynnal gyda Dr Iain Anderson o ymchwiliad Llywodraeth y DU, "Lessons to be Learned". (OAQ15925) **R**

**4. Karen Sinclair (De Clwyd);** Pa fesurau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i archwilio'r achosion o'r ysfa mewn defaid. (OAQ15911)

**5. Peter S Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trafodaethau y mae wedi'u cynnal gyda Syr Brian Follett mewn perthynas ag ymchwiliad y Gymdeithas Frenhinol i glwy'r traed a'r genau. (OAQ15924) **R**

**6. David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae'r Cynulliad hwn yn hyrwyddo cynnyrch o Gymru mewn marchnadoedd rhyngwladol. (OAQ15920)

**7. Elin Jones (Ceredigion);** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i roi tystiolaeth i ymchwiliad Senedd Ewrop i glwy'r traed a'r genau. (OAQ15966)

**8. David Davies (Mynwy);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sefydlu panel cwynion ffermwyr. (OAQ15955)

**9. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyllido'r Cynllun Tir Gofal yn y dyfodol. (OAQ15940)

**10. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar y naw prawf am y diciâu. (OAQ15964) **W**

**11. Dafydd Wigley (Caernarfon);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol cynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru. (OAQ15959)

**12. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y gwaith o ddatblygu'r modd y caiff cynnyrch unigryw o Gymru sydd wedi'i frandio ei gynhyrchu a'i farchnata. (OAQ15909)

**13. Alison Halford (Delyn);** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau bod pob archfarchnad yng Nghymru yn trin ffermwyr yn deg, ac yn rhoi pris teg iddynt am eu cynnyrch. (OAQ15921)

**14. Brian Gibbons (Aberafan);** Pa rôl y gall arferion da o ran lles anifeiliaid ei chwarae wrth hybu diwydiant amaethyddol Cymru. (OAQ15917)

**15. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ail-agor arwerthiannau gwartheg yng Nghymru. (OAQ15914)

Gofyn i Drefnydd y Cynulliad

**1. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa gyfran o ardal Canol De Cymru sydd o fewn cyrraedd i wasanaeth band llydan. (OAQ15897) **W**

**2. Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro);** A wnaiff y Trefnydd ddatganiad ynghylch faint o gyllid y Cynulliad sydd wedi ei glustnodi ar gyfer TG gan gyfeirio'n arbennig at ardal De Orllewin Cymru. (OAQ15905)

**3. David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff y Trefnydd ddatganiad ar dwf TGCh o fewn Ardaloedd Amcan 1. (OAQ15928)

**4. Karen Sinclair (De Clwyd);** Pa gynnydd, os o gwbl, sydd wedi bod ar ddatblygu dulliau o gadw sgiliau TGCh ar lefel uchel yng Nghymru. (OAQ15900)

**5. Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** A wnaiff y Trefnydd ddatganiad ar y lefel o gefnogaeth a roddwyd i agoriad arfaethedig Canolfan Ddata Ignite BT, fydd yn fy etholaeth i, sef De Caerdydd a Phenarth. (OAQ15904)

**6. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd );** A wnaiff y Trefnydd ddatganiad ar y datblygiadau o ran mynd i'r afael â'r 'rhaniad digidol' yng Nghymru. (OAQ15899)

**7. Brian Hancock (Islwyn);** Sut fydd y defnydd o TGCh yn helpu i hwyluso adleoli swyddi o'r dinasoedd mawrion i gefn gwlad Cymru. (OAQ15970)

**8. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa gyfarfodydd y mae'r Trefnydd wedi eu cael gydag Awdurdod Datblygu Cymru i hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg band llydan. (OAQ15973)

**9. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Trefnydd ddatganiad ar ddatblygu rhwydwaith gyfathrebu well ar draws Cymru trwy ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. (OAQ15968)

**10. Helen Mary Jones (Llanelli);** Erbyn pa ddyddiad y mae'n rhagweld y bydd pob ysgol gynradd yn derbyn gwasanaeth 2 fegabeit yr eiliad. (OAQ15906)

**11. David Melding (Canol De Cymru);** Sut y mae'r Trefnydd yn annog yr henoed yng Nghymru i ddefnyddio TGCh. (OAQ15927)

**12. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i sicrhau y gall mwy o bobl yng Ngorllewin De Cymru dderbyn gwasanaeth band llydan yn y flwyddyn ariannol nesaf. (OAQ15903)

**13. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Trefnydd egluro swyddogaeth y 'caffis seiber' wrth hybu Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yng Nghymru. (OAQ15895)

**14. Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Trefnydd ddatganiad ar yr hyn sydd wedi ei wneud i hyrwyddo e-fusnes yng Ngogledd Cymru. (OAQ15974)

**15. Gareth Jones (Conwy);** Beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod pob athro a Phrifathro yng Nghymru yn derbyn hyfforddiant addas mewn TGCh. (OAQ15969)